# Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) (Diwygio) 2020

Paratowyd y nodyn hwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn dilyn penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes ar 27 Mawrth 2020 a 3 Ebrill 2020 **ynghylch delio, dros dro, ag offerynnau statudol** a osodwyd gerbron y Cynulliad.

## Crynodeb

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau, a Chyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/96/EU ar y gofynion ar gyfer labelu, selio a phecynnu deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau, sydd o fewn cwmpas Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1813, sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2014/96/EU o ran lliw a chynnwys dogfen y cyflenwr.

Mae rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddogfen y cyflenwr sydd ynghlwm wrth ddeunyddiau *Conformitas Agraria Communitatis (*"CAC") ar ffurf label fod wedi ei lliwio'n felyn ac mae'n lleihau'r wybodaeth sy'n ofynnol yn nogfen y cyflenwr. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth drosiannol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Pwyntiau Ychwanwegol i Nodi

Nodwyd y pwynt canlynol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**1. Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2017 sy'n gweithredu, yng Nghymru, amryw o rwymedigaethau'r UE mewn perthynas â marchnata a labeli deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau.

Bydd Rheoliadau 2017 diwygiedig yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

**Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**7 Ebrill 2020**